COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
**Dr Aled Eirug**
Prif Weithredwr:
**Dr Ioan Matthews**

**Ffôn:** 01267 610400
**E-bost:** gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Cyfeiriad e-bost: SeneddCyllid@Senedd.Cymru

11 Medi 2025

Annwyl Bwyllgor,

**Cyf: Galwad am wybodaeth – cynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27**

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Nod y Coleg yw adeiladu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithlu dwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg ei hun.

Yn ei ddatganiad i'r Pwyllgor Llawn ar 1 Gorffennaf, nododd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg y byddai'r gyllideb ddrafft yn "ailddatgan i'r flwyddyn ariannol nesaf y gyllideb sydd ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, gyda chynlluniau gwariant eleni yn cael eu bwrw ymlaen a'u cynyddu yn unol â chwyddiant yn unig."

Mae bwriad yr Ysgrifennydd Cabinet i geisio sefydlogrwydd am 2026-27 a rhoi lle i lywodraeth nesaf Cymru osod blaenoriaethau a pholisïau newydd yn rhesymol a rhesymegol. Mae'r Coleg wedi paratoi cynigion maniffesto ar gyfer etholiad 2026, gan alw ar lywodraeth nesaf Cymru i osod dau nod:

CYMRAEG
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

- Cynyddu nifer y dysgwyr sy’n dilyn llwybrau Cymraeg a dwyieithog drwy’r system addysg gyfan, a’r sector trydyddol yn arbennig.
- Cynyddu’r nifer sy’n gallu ac yn dewis gweithio’n ddwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg.

Ein dymuniad ar gyfer y cyfnod tu hwnt i 2026-27 fyddai gweld y llywodraeth nesaf yn blaenoriaethu ac yn ariannu’r chwe chynnig polisi yn ein maniffesto.

Yn y cyfamser, gyda’r galwadau ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn uwch nag erioed, mae’n ddealladwy mai cynnydd yn unol â chwyddiant sy’n cael ei gynnig ar gyfer cynlluniau gwariant 2026-27. Fel y nodwyd yn nigwyddiad ymgysylltu’r Pwyllgor ym Mangor, mae sicrwydd a chysondeb yn allweddol i sefydliadau fel y Coleg allu cynllunio gwariant yn effeithiol. Hyderwn felly y bydd adrannau’r llywodraeth yn gweithredu yn unol â’r egwyddor a nodwyd gan yr Ysgrifennydd Cabinet ynghylch “sicrhau sefydlogrwydd a sicrwydd i’n gwasanaethau cyhoeddus a’n hetholwyr”.

Hyderwn bydd cynnwys y llythyr hwn o fudd wrth i’r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 fynd rhagddo. Am ragor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu gyda Gwenllian Griffiths, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu’r Coleg, ar g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir,



**Dr Ioan Matthews**
**Prif Weithredwr**